# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

**COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 12fed TACHWEDD 2024 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

1. **Presennol** - Dafydd Thomas (Cad) - Nebo, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Ceri Owen - Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn - Llanllyfni, Siân Dafydd, Harry Owen, Nigel Williams - Talysarn. Cyng. Peter Thomas

**Ymddiheuriadau** – Justin Davies, Judith Humphreys, Dylan Herbert, – Penygroes,– Gareth Jones – Talysarn, Gerallt Hughes – Nantlle.

2. **Datgan buddiant** – pwynt 11 Cynnig i gymeradwyo adroddiad comisiwn cymunedau Cymraeg – Tesni Glyn. Pwynt 13 Ceisiadau cynllunio - Siân Dafydd. Pwynt 16 unrhyw fater arall, Trem Yr Wyddfa – Barry Bracegirdle.

3. **Cofnodion cyfarfod 8 Hydref 2024** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - "Prosiect Gwella Delwedd ein Pentrefi" - gofynnwyd am restr o ardaloedd o fewn y pentrefi lle buasai'r cynghorwyr yn hoffi ei gweld yn cael eu torri yn amlach er mwyn gwella delwedd y pentref. Cafwyd trafodaeth a rhestrwyd lleoedd - cylchfan Penygroes/Llanllyfni, ardal Môr Awel, ardal ger Wynnstay, Penygroes, mynedfa canolfan Talysarn, ger yr arwydd i mewn i Lanllyfni o gyfeiriad Penygroes, gwaelod Lôn Ddŵr, Llanllyfni. Angen nawr trefnu i gyfarfod a swyddog o'r cyngor i drafod hyn ymhellach. "Tir Cwtin" - angen pwyso ar y cyfreithwyr i symud pethau ymlaen. Heb dderbyn pris arall am gyfieithu'r brydles felly gofyn i Einir Williams a oedd wedi rhoi'r pris gwreiddiol i wneud y gwaith pan fydd y brydles yn barod.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas a diolchwyd iddo am ei pharatoi ac am ei waith. Aeth drwy'r adroddiad a dywedodd ei fod o a Dafydd Thomas wedi cyfarfod gyda chriw Dorothea ers ein cyfarfod diwethaf. Hefyd roedd wedi derbyn adroddiad o'r adolygiad o gyflymder cerbydau Bro Silyn ac adroddwyd bod y cyfartaledd yn 48mya sydd yn golygu na fydd siawns o ddod a'r cyflymder i lawr i 30 fel yr oedd yn dymuno. Mae problemau parcio Talysarn yn dal yn bryder. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei adroddiad.

6. **Adroddiad cyfarfod is-bwyllgor a gynhaliwyd 22ain Hydref - Llwybrau a Mynwentydd** - adroddwyd bydd tendr torri llwybrau yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2025 felly angen rhoi hysbyseb allan er mwyn cael prisiau gan gontractwyr am y gwaith. Trafodwyd a phenderfynwyd rhoi'r hysbys yn y Daily Post am ddau ddiwrnod, Lleu ymhob argraffiad fydd allan o nawr tan y dyddiad cau, ar wefan y Cyngor ac ar dudalen Facebook. Roedd pawb wedi cael cyfle i edrych dros gopi o'r tendr a thrafodwyd i ychwanegu un cymal i ddweud bod gan y Cyngor Cymuned hawl i gyfnewid llwybr am un arall unrhyw bryd yn ystod y cytundeb ac na fydd cost ychwanegol gan y contractwyr am wneud y gwaith hwn.

7. **Llwybrau a Mynwentydd** – hyn wedi ei drafod ym mhwynt 6

8. **Taflen ariannol a chyllid** - roedd pawb wedi derbyn copi o'r fantolen. Diolchwyd i Gareth am ei waith gyda'r cyllid. Cyfraniadau A137. Llythyr trothwy ar gyfer 2024/26 wedi ei dderbyn, ond angen cadarnhad o'r nifer o etholwyr cyn medru dod fyny a swm penodol. Yn dilyn derbyn e-bost gan Un Llais gyda dogfen rheoli templed awgrymwyd fod angen ei deilwra ac yna ei fabwysiadu. Derbyniwyd e-bost ynglŷn â chyflog y clerc a bod angen ôl daliad i Ebrill 2024 ar ei gyfer. Angen awdurdodi a chofnodi hwn - trafodwyd a phenderfynwyd disgwyl i Gareth fod yn bresennol er mwyn trafod y ffigyrau.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _______________________________ Dyddiad - ___________

9. **Materion Pentrefi** - **Penygroes** - gofynnwyd i'r clerc yrru at gwmni Roberts ac Owen Penygroes i ddiolch iddynt am eu gwaith o lanhau'r gof golofn ym Mhenygroes yn barod at Sul y Cofio. Hefyd, gyrru i ddiolch i Fand Nantlle am eu gwasanaeth fel band ar y diwrnod. Gofynnwyd pwy sydd yn gyfrifol am y gof golofn, Clwb y Cyn Filwyr efallai - angen eu holi er mwyn cael gwybod. Angen torri gwair uwchben Wynnstay ac angen tynnu'r goeden sydd wedi disgyn yno hefyd. Mainc wedi pydru ar y llwybr rhwng Wynnstay a'r Co-op ac angen sylw. Y grisiau sydd yn mynd fyny ger Wynnstay i'r llwybr uwchben - mae Cyngor Gwynedd wedi bod yno yn tynnu rheilen ond wedi gadael y sgriwiau sydd yn beryglus, hefyd un panel angen ei beintio yno. **Talysarn -** adroddwyd ers dechrau yn yr ardd am ryw reswm mae yna lawer iawn o faw ci yn cael ei adael yno. **Llanllyfni** - tyfiant wrth gefn y fainc ar waelod Lôn Ddŵr a hefyd dros y ffordd wrth Y Felin - angen eu torri. Safle'r hen Cwari yn llanast ac angen ei dacluso.

10. **Arolwg o gefnffordd lle mae cyfyngiadau wedi'u dileu** - bu i ni dderbyn e-bost gan Neil Norris am hyn a bu i bawb edrych drosto cyn y cyfarfod, nid oedd dim ymateb i'w adrodd i'r ohebiaeth yma.

11. **Cynnig i gymeradwyo adroddiad comisiwn cymunedau Cymraeg** - bu i Tesni Glyn adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth yma. Roedd pawb wedi derbyn copi o e-bost Cyngor Cymuned Llanystumdwy am y cynnig hwn. Cynigwyd, eiliwyd a phenderfynwyd ei gymeradwyo.

12. **Cynlluniau Arwyddo drafft Penygroes** – angen gofyn am y cynlluniau a'r ysgrifen i'w gweld cyn cymeradwyo hyn.

13. **Ceisiadau Cynllunio** - (bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod yn ystod y pwynt hwn). Nid oedd dim gwrthwynebiad i unrhyw un o'r ceisiadau isod a oedd wedi eu derbyn.

*- C24/0649/22/DT – Clwyd Iâl, 48 Ffordd Y Sir, Penygroes – Porth blaen newydd ac estyniad unllawr cefn*

*- C24/0808/22DT – 99 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni – Estyniad i gefn modurdy er mwyn ei ddefnyddio fel ystafell*

14. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. Nid oedd dim yn codi ohonynt.

*- Cyngor Gwynedd – Cynllun adfywio ardal Bro Lleu Nantlle*

*- UnLlais – Model Rheoliadau Ariannol*

*- UnLlais – Nodyn datblygu Arfer 1 – Amserlen flynyddol o weithredoedd ariannol*

*- UnLlais – Nodyn datblygu ymarfer 9 – Cylch perwyl ar gyfer cyfarfodydd cynghorau*

*- UnLlais - Ymgynghoriad newydd - Y bil deddfwriaeth*

15. **Materion ariannol** –

*- Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd =* ***£25.00*** – cytuno i dalu

*- Antur Nantlle – cynnal a chadw gwefan =* ***£144.00*** – cytuno i dalu

*- Designer Signs – atgyweirio safle bws =* ***£118.80*** – cytuno i dalu

*- Cyngor Gwynedd – casglu gwastraff Mynwent Macpela =* ***£128.00*** – cytuno i dalu

*- Tir ac Eiddo LWH – Cynllun cofrestru Tir ar gyfer Cwtin =* ***£180.00*** – cytuno i dalu

*- Papur Bro Lleu – hysbyseb ceisiadau cymorth ariannol =* ***£76.00*** *– holi pam bod y pris hwn mor uchel o gymharu ar hysbyseb arall isod.*

*- Papur Bro Lleu – hysbyseb gwaith cyfieithu =* ***£17.00 –*** *holi pam bod yna wahaniaeth yn y prisiau hysbysebu*

16. **Unrhyw fater arall** - **Trem Yr Wyddfa** - derbyniwyd cais gan Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Trem Yr Wyddfa yn gofyn am gyfraniad tuag at redeg eu system teledu cylch cyfyng sydd yn costio oddeutu £675 y flwyddyn i'w redeg. Bu i Barry Bracegirdle adael y cyfarfod tra bo'r drafodaeth yn cymryd lle. Cynigwyd i roi £400 i'r gymdeithas ac i hwn ddod allan o'r cyllid Prosiect Pentrefi. Hefyd cynigwyd eu bod yn rhoi cais i mewn ar gyfer cyfraniad ariannol sydd yn cau ddiwedd Ionawr 2025. Eiliwyd y cynigion hyn a chytunodd pawb. **Cynllunio Erthygl 4** - gofynnwyd a buasai modd gwahodd swyddog o Gyngor Gwynedd i esbonio gweithrediad Erthygl 4. Adroddodd

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

Siân Dafydd ei bod hi yn gweithio yn benodol ar erthygl 4 a dywedodd bod yna swyddog a fuasai mwyaf tebyg yn dod i ateb unrhyw gwestiynau a rhoi esboniad swyddogol i'r cyngor cymuned, neu dywedodd y buasai hi yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau fuasai gan unrhyw un yn answyddogol. Penderfynwyd pawb edrych ar y wefan cyn y cyfarfod nesaf a phenderfynu wedyn os am wahodd y swyddog. Y clerc i rannu linc i'r wefan gyda phawb ymlaen llaw i'r cyfarfod nesaf.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 10fed Rhagfyr 2024 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________